**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref EM/00749/18

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

SianElen.Jones@cyg-wlc.cymru

27 Tachwedd 2018

Annwyl Meri

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Hydref ynglŷn â'r cod ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Rwy'n ymwybodol eich bod wedi ymgynghori ar god ymarfer drafft yn gynharach eleni, ac wedi gwneud hynny yn unol â'r Mesur gan ymgynghori gyda'r personau y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r safonau, a gyda'ch Panel Cynghori. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ei hun ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw fel corff sy'n cydymffurfio â safonau yn Rheoliadau Rhif 1.

Bellach, mae Gweinidogion Cymru yn gorfod edrych ar y cod ymarfer gan arddel swyddogaeth cydsynio'r cod o dan adran 68(3) y Mesur. Mae ymateb i'ch cais i mi gydsynio'r cod yn dasg wahanol iawn i'r dasg gwnaeth swyddogion cydymffurfio ymgymryd wrth lunio ymateb i'r ymgynghoriad yn gynharach eleni.

Gan fod y cod rydych wedi ei gyflwyno i mi yn dehongli nifer o dermau (rhai ohonynt hefyd yn cael eu dehongli yn y Rheoliadau ei hun), mae angen i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod y dehongliadau hynny yn gyfreithiol gadarn ac yn gywir, ac yn fodlon nad yw'r dehongliadau yn cael sgil effaith ar weithrediad deddfwriaeth y tu hwnt i'r safonau.

Mae hefyd yn angenrheidiol i Weinidogion sicrhau ein bod yn fodlon gyda'r modd rydych yn dehongli cyfreithiau sydd y tu hwnt i'r rheoliadau safonau, er enghraifft deddfwriaeth diogelu data a deddfwriaeth cyflogaeth.

Oherwydd yr hyn rwy'n amlinellu uchod, nid yw hi wedi bod yn bosib i mi gydsynio'r cod ymarfer eto. Mae'r gwaith o ystyried y cod ymarfer rydych wedi ei gyflwyno yn parhau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn eich diweddaru ymhellach ar y sefyllfa yn y cyfarfod chwarterol ar 5 Rhagfyr.

Yn gywir

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning